



Cydnabod dysgu rhagorol mewn addysg grefyddol

Beth yw'r Marc Ansawdd Addysg Grefyddol?

Mae Marc Ansawdd Addysg Grefyddol:

- ★ wedi cael ei ddatblygu i ddathlu addysg grefyddol o ansawdd uchel
- ★ yn darparu fframwaith i ysgolion cymuned, ysgolion ffydd ac academiâu i gofnodi arfer da
- ★ yn annog datblygu a dathlu ymrwymiad ar draws yr ysgol at addysgu a dysgu rhagorol mewn addysg grefyddol



Sut mae'r Marc Ansawdd Addysg Grefyddol yn gweithio?

Mae pum llinyn i'r Marc Ansawdd Addysg Grefyddol:

- ★ Dysgwyr a Dysgu
- ★ Athrawon ac Addysgu
- ★ Y Cwricwlwm
- ★ Arweinyddiaeth Pwnc
- ★ Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae tair lefel dyfarnu: efydd, arian ac aur.

Mae ysgolion sy'n gwneud cais am Marc Ansawdd Addysg Grefyddol yn amlygu ble maent yn bodloni'r meini prawf yn eu barn nhw. Ar ôl gwneud cais am y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol, bydd aseswr yn ymweld â'r ysgol, yn cyfweld â dysgwyr ac yn cyfarfod â'r arweinydd pwnc ac aelod o'r uwch dîm arwain.

Beth ydw i'n ei wneud nesaf?



www.reqm.org

- ★ Ewch i'r wefan ac archwilio'r meini prawf: www.reqm.org
- ★ Os ydych chi o'r farn y gallai eich ysgol gyflawni'r dyfarniad, anfonwch neges e-bost at admin@reqm.org i ddarganfod mwy
- ★ Mae'r Marc Ansawdd Addysg Grefyddol yn costio £475 i bob ysgol.
- ★ Mae cyllid ar gael ar gyfer ysgolion bach (100 disgybl neu lai) i dalu cost y dyfarniad.

